

Dilys O'Brien Owen

Drwy'r nos, bu'n paderau ni
yn ateb gwantan iti,
o Dduw mawr, a heddiw mae
olyniaeth ar ei gliniau;
pob capel, angel o'i le,
a'r hwyl ar goll yn rhywle.

Ond yn festri'n diogi du
y rhaid yw dal i gredu
â hyder y cenhadon
y doi di i fendio hon;
dod â'r Gair fel y dŵr gwyn,
Gair dy waed i gredadyn.

Ac i ni, a'n gweddi'n gaeth,
Dilys fu'n hysbrydoliaeth
hi'r dawl wrth-ryfelwraig,
y gwâr o hyd, fel y graig;
blaenores, dynes yn dod
o Dreddfafydd drwy ddefod.

Dweud y *Goleuad* ydyw,
ym mhob llên mae'n darllen Duw,
Llyfyrfa bur ei llafurwaith
ydi oes o wneud y daith
a rhoi i lawr, wrth groesi'r lôn,
rhyw ras mewn camau breision.

Mae'n henwad mor anwadal,
ond ynys Dilys sy'n dal
i rwyfo seiat brofiad,
yr hen O'Brien barhâd;
y tir yw Presbyteriaeth,
a'n pentref yn nef a wnaeth.

Dilys, heb fur adeilad
rhyngddi a thi, Dduw a thad,
a'i rhodd o hyd, y chwaer ddoeth,
oedd yn elw i ddynoliaeth.
Ga' i ryw faint o grefydd,
diferion ffynnon ei ffydd ?

Karen Owen
10/5/13.